# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 12 Medi 2024 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Kelly Clewett, Pauline Edwards (Vice-Chair), Bobby Feeley, Terry Mendies, Arwel Roberts, David Williams ac Elfed Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS); Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HV-E); Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Conwy a Sir Ddinbych (ST); Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol (GM); Rheolwr Asedau (BW); Rheolwr Tîm Cyfleusterau ac Asedau (DR); Prif Swyddog Digidol Dros Dro (MW); Prif Reolwr Ieuenctid a Gwytnwch Cymunedol (CT); Swyddog Digidol (PB); Cydlynydd Craffu (RhE); a Gweinyddwyr Pwyllgorau (ED – Cymryd Cofnodion) a (NH - Gweddarlledu).

Prif Arolygydd, David Cust o Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer Eitem Rhif 5.

Aelodau Arweiniol yn bresennol ar ôl cael gwahoddiad gan y Pwyllgor i gyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau am faterion busnes o fewn eu portffolios: Cynghorydd Gwyneth Ellis, Cynghorydd Elen Heaton, Cynghorydd Julie Matthews a Chynghorydd Rhys Thomas

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Brian Jones.

## 2 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni thynnwyd sylw'r Cadeirydd at unrhyw eitemau brys cyn dechrau'r cyfarfod.

## 3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Mai 2024. Felly:

***Penderfynwyd:*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Mai 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.*

<u>Materion yn codi:</u> Eitem 6 - Gofynnodd y Cynghorydd Elfed Williams am ganlyniad adolygiad y Cabinet o argymhellion y Pwyllgor mewn cysylltiad â'r penderfyniad a alwyd i mewn i graffu arno o dan Reolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Gofynnodd hefyd a oedd y dogfennau yr oedd wedi gofyn iddynt gael eu dosbarthu i aelodau wedi cael eu derbyn eto. Dywedodd y Cydlynydd Craffu y byddai'n

gwneud cais pellach i'r dogfennau gael eu dosbarthu i aelodau. Gan fod y Pwyllgor wedi penderfynu cefnogi penderfyniad gwreiddiol y Cabinet o 23 Ebrill 2024 mewn cysylltiad â 'Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Rhaglen Dreigl', nid oedd rhaid i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol ar ôl ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu. Felly cafwyd cyngor y gellid gweithredu'r penderfyniad ar unwaith.

## 4 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganodd unrhyw aelodau gysylltiad personol, neu gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag unrhyw un o'r eitemau a restrwyd i'w trafod.

**Cyn cychwyn trafod Eitem 5 dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y byddai'r Pwyllgor yn trafod Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 yn ei gapasiti fel Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn dynodedig y Cyngor, yn unol â Deddf Heddlu a Chyfiawnder 2006, Adrannau 19 a 20.**

## 5 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL AR GYFER EBRILL 2023 - MAWRTH 2024

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) ac eglurodd fod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gorff statudol, ac felly roedd yn rhaid iddo adrodd i'r Pwyllgor Craffu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mynegodd yr Aelod Arweiniol ei ddiolchgarwch i Reolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, am lunio'r adroddiad yn ogystal â rhoi gymaint o sylw i amcanion y Bartneriaeth. Croesawodd yr Aelod Arweiniol Prif Arolygydd David Cust o Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod. Dywedodd Pennaeth Gwasanaeth: Perfformiad, Digidol ac Asedau wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn adroddiad statudol, a phwysleisiodd bwysigrwydd y Bartneriaeth ynghyd ag arwyddocâd a manteision yr holl bartneriaid yn cydweithio.

Fe aeth Rheolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol drwy'r adroddiad yn gryno ac fe aeth ymlaen i egluro'r prif bwyntiau. Tynnwyd sylw at dair blaenoriaeth tra'n trafod crynodeb o Berfformiad Gweithgaredd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, ac fe nodwyd fod y blaenoriaethau yma'n amlweddog. Ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd perfformiad mewn cysylltiad â dau o'r blaenoriaethau yma'n dda, ac roedd un yn dderbyniol. Fe nodwyd fod yna gynnydd mewn lladrata, ac roedd hyn yn wahanol i'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ond yn y pendraw, nid oedd yn waeth ond roedd yn parhau'n annerbyniol.

Fe nodwyd fod gan Flaenoriaeth 1 - Lleihau Trosedd ac Anrhefn yn yr ardal drwy weithio mewn Partneriaeth, nod statudol a fyddai'n fwy effeithiol heb bartneriaid yn dyblygu eu hymdrechion. Prif ffocws yr amcan yma oedd cefnogi pobl ddiamddiffyn a lleihau nifer y dioddefwyr o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Blaenoriaeth 2 - cydweithio i leihau aildroseddu. Roedd perfformiad yn erbyn y flaenoriaeth hon yn ystod 2023/24 wedi cael ei asesu yn 'Dderbyniol' o'i gymharu â bod yn 'Dda' yn y flwyddyn flaenorol. Prif amcanion y flaenoriaeth hon oedd gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag dod yn ddioddefwyr trosedd, atal oedolion rhag aildroseddu a chydweithio i atal troseddu cyfundrefnol. Mae gwaith wedi cael ei wneud gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) yn ogystal â Gwasanaethau Iechyd Meddwl gyda Phlant a Phobl Ifanc mewn cysylltiad ag atal

yn y maes hwn. Mae gwaith dadansoddol wedi cael ei wneud mewn cysylltiad â throsedd â chyllyll mewn ymgais i leihau digwyddiadau o'r fath. Roeddynt wedi edrych ar fannau problemus gan olygu y byddai'r Bartneriaeth yn gallu targedu'r ardaloedd yma'n fwy effeithiol yn y dyfodol.

Blaenoriaeth 3 - Blaenoriaethau lleol a rhanbarthol. Parhaodd perfformiad yn erbyn y flaenoriaeth hon i fod yn dda. Gan ddefnyddio mannau problemus, roedd modd i'r Bartneriaeth wneud newid cadarnhaol gyda ffocws ar atal a pheidio â throseddoli pobl ifanc. Roedd llawer o gydweithio yn digwydd rŵan mewn cysylltiad â rhannu gwybodaeth gyda phob partner mewn cysylltiad â gweithgarwch Llinellau Sirol. Roedd grŵp rhannu gwybodaeth wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar ac mae'n cyfarfod bob mis. Dywedodd y Prif Arolygydd David Cust wrth y Pwyllgor fod y Grŵp yma'n allweddol i gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol. Yn flaenorol, bu partneriaid yn gyndyn o rannu gwybodaeth mor breifat ond roedd hi'n amlwg bellach bod rhannu gwybodaeth yn arwain at nifer o fanteision i'r cymunedau.

Fe aeth y Rheolwr PDC ymlaen i drafod y blaenoriaethau a ffocws ar gyfer blwyddyn 2024/25, gan fanylu ar berfformiad a phrosiect/gweithgarwch. Tra'n trafod y nod o leihau trosedd ac anrhefn, fe soniwyd am fenter "Dangos y Drws i Drosedd" oherwydd y ffordd y cafodd ei weithredu. Roedd y fenter yn cynnwys annog pobl i gofrestru i "Adrodd Cymunedol", ac i fod yn fwy ymwybodol o ble'r oedden nhw'n rhoi eitemau gwerthfawr yn eu cartrefi a lle'r oedd manwerthwyr yn arddangos nwyddau â gwerth uchel, e.e. yn bell o ddrysau. Roedd y gwaith wedi cael effeithiau cadarnhaol amlwg a dywedwyd mai'r nod oedd cynnal y lefel yma o ryngweithio gyda'r cymunedau.

Roedd digwyddiadau'n cael eu trefnu gan PDC drwy gydol y flwyddyn er mwyn cynnal ymgysylltiad ac roeddynt yn cael eu hysbysebu'n eang ar gyfryngau cymdeithasol. Yn ychwanegol, roedd digwyddiadau penodol yn y gymuned yn cael eu cynnal oedd yn canolbwyntio ar faterion megis caethwasiaeth fodern, gwrth-derfysgaeth, Diwrnod Rhuban Gwyn i godi ymwybyddiaeth am Gam-drin Domestig a'u hysbysebu'n eang. Roedd cyngor am atal trosedd hefyd yn cael ei gynnig i gyfrannu at yr ymgyrchoedd yma a'u cefnogi. Fe nodwyd ei bod hi wedi bod yn flwyddyn brysur heb gyllid ychwanegol ar gael i gefnogi'r digwyddiadau yma, ond roedd y Bartneriaeth yn cydweithio i ddarparu'r digwyddiadau yma beth bynnag.

Tra bod digwyddiadau o aildroseddu ymysg oedolion wedi cynyddu rhywfaint yn Sir Ddinbych, roedd yna gynnydd nodedig yng Nghonwy, roedd gwaith yn mynd rhagddo i geisio mynd i'r afael â'r duedd hon. Dywedodd Rheolwr PDC bod gwaith wedi cael ei gynnal ar yr ochr atal aildroseddu drwy ymdrechion gyda Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Gwelwyd newid sylweddol dros y 12 mis diwethaf ac roedd y gwaith yn dechrau talu ar ei ganfed. Y prif nod oedd helpu Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid a phobl ifanc i atal ieuenctid rhag troseddu. Roedd y cydweithio yma wedi gweithio'n dda ond roedd wedi dechrau gweithio'n fwy effeithiol yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd Rheolwr PDC bod Fforwm y Rhyl wedi parhau i weithio'n ddiwyd i geisio newid camwybodaeth a mynd i'r afael â chamdybiaethau am Y Rhyl. Roedd hyn yn brosiect parhaus yn Y Rhyl.

Dywedodd y Prif Arolygydd wrth y Pwyllgor bod prosiect Hel, Dal, Cryfhau yn fenter sy'n cael ei gefnogi gan y Swyddfa Gartref i wella'r amgylchedd lleol a lleihau lefelau trosedd o ganlyniad i hynny. O ganlyniad i'r prosiect yma mae llawer o adnoddau bellach yng ngorllewin y Rhyl sydd yn cynnwys rhaglenni amrywiol i gefnogi preswylwyr i adeiladu eu gweledigaeth o'r gymuned roeddynt yn byw ynddi, cefnogi negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer digwyddiadau cymunedol a mesurau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yng ngorllewin Y Rhyl a lleihau

gwybodaeth ffug. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i leihau lefelau trosedd yn rhan o strategaeth Dyletswydd Trais Difrifol. Roedd y Swyddfa Gartref yn cefnogi prosiectau penodol oedd yn anelu at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau â chyllyll - roedd hyn yn cael ei ystyried yn gam mawr ymlaen.
Roedd effaith cam-drin domestig yn dechrau cael ei ddysgu mewn ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg disgyblion ifanc am yr ymddygiad yma. Roedd menter "Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol" wedi cael ei gyflwyno ac roedd yr oedran i godi ymwybyddiaeth ohono wedi cael ei ostwng a'i addasu i ddisgyblion Blwyddyn 6. Nod y rhaglen oedd gadael i'r plant wybod bod cefnogaeth ar gael petaent ei angen os oeddynt yn dioddef unrhyw ffurf o gam-drin domestig. Roedd hyfforddiant arbenigol wedi cael ei roi i'r rhai oedd yn cyflwyno'r rhaglen hon i blant a phobl ifanc i'w helpu a'u cefnogi i gael y sgyrsiau anodd hynny, ac mewn ymgais i'w helpu i adnabod ymddygiad annerbyniol tuag at bobl eraill, megis y rhai sy'n cael eu cefnogi gan rai 'dylanwadwyr' ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd cyllid wedi cael ei sicrhau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gefnogi'r fenter hon. Roedd hyn yn golygu y byddai swyddogion yn ymweld â phob ysgol yn y sir er mwyn codi ymwybyddiaeth. Trafodwyd mentrau ysgol eraill trwy gydol y cyfarfod.
Yna fe agorwyd y drafodaeth ar gyfer unrhyw gwestiynau. Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- ddweud bod llawer o wasanaethau yn ymwneud â mentrau gwaith partneriaeth amrywiol, e.e. Trwyddedu, Safonau Masnach, Gwasanaethau Plant ac Ieuenctid, Gwasanaeth Tân ac Achub, Gwasanaeth Prawf, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), yr Heddlu, timau rhanbarthol Cam-drin Domestig ac ati. Roedd yr holl waith a wnaed yn drawsbynciol ac yn cynnwys bron i bob adran yn yr awdurdod. Roedd hyn yn sicrhau dull aml asiantaeth ac amlweddog tuag at ddarparu diogelwch cymunedol.
- o ran gweithgareddau troseddol megis Llinellau Sirol yng ngogledd Cymru, dywedodd y Prif Arolygwr bod yna Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn gweithredu mewn trefi mwy. Dywedwyd fod meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i werthu cyffuriau yn broblem fawr ar draws y Sir. Roedd hyn yn golygu bod troseddwyr Llinellau Sirol yn sefydlu eu hunain yng nghartrefi pobl ddiamddiffyn ac yn defnyddio'r cartrefi yma fel 'pencadlys' i ddelio cyffuriau. Gyda'r bwriad o atal arferion o'r fath, bu modd i bobl ddiamddiffyn roi goriadau sbâr i'r eiddo i Swyddogion yr Heddlu, ac maen nhw'n mynd i'r eiddo i gadw golwg ar yr unigolion yma. Roedd tua 200 o wiriadau gwarcheidwad yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar hyn o bryd. Mae gweithgareddau Llinellau Sirol wedi cael eu canfod yn ystod yr ymweliadau yma. Cafodd y Gwasanaeth Tân ac Achub eu briffio am y gweithdrefnau yma hefyd fel bod y Bartneriaeth gyfan yn ymwybodol ac yn gallu mynd i'r afael â'r digwyddiadau troseddol yma.
- o ran gweithgarwch troseddol yn Y Rhyl, megis tyfu canabis yn yr ardal, a'r ffaith bod un grŵp wedi llwyddo i dyfu llawer o ganabis heb i neb sylwi, a sut roedd y Bartneriaeth yn mynd i'r afael â hyn, dywedodd y Prif Arolygydd bod rhannu gwybodaeth yn allweddol i ddal a chael gwared ar weithgareddau o'r fath. Fe gyfeiriodd at bartneriaeth rhannu gwybodaeth yr oedd gan yr Heddlu gyda chyflenwyr trydan yn ogystal â defnyddio dronau er mwyn ceisio canfod eiddo gwag oedd yn cael eu gwerthu i grwpiau troseddu cyfundrefnol. Fe nodwyd fod Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn defnyddio arferion soffistigedig ac effeithiol ac roeddynt yn dda iawn am beidio â thynnu sylw

gan ddefnyddio gosodwyr carbon ar fentiau a manteisio ar bobl ddiamddiffyn i atal pobl rhag gweld pobl yn dod i mewn ac allan o'u heiddo.

- cawsant wybod bod yr ardaloedd plismona ar draws ffin sir Conwy a Sir Ddinbych ac felly roedd cudd wybodaeth a gwybodaeth leol oedd yn cael ei gasglu yng ngorllewin y Rhyl yn ogystal ag ym Mhensarn, Towyn a Bae Cinmel yn cael ei rannu'n rheolaidd gyda sefydliadau partner. Roedd yna bryder am dwristiaid yn yr ardaloedd yma ac a oedd pobl yn symud rhwng y Rhyl a Chonwy i werthu cyffuriau yn cael eu hymchwilio bob amser fel yr oedd adroddiadau o ddefnydd diawdurdod neu anghyfreithlon o safleoedd carafán ac ardaloedd twristaidd. Digwyddodd mathau tebyg o waith ymgysylltu â'r gymuned i'r hyn sy'n digwydd yng ngorllewin y Rhyl ar hyd y ffin a Chonwy hefyd, yn ogystal â swyddogion yn mynd mewn i'r meysydd carafán yma i dargedu ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- nid oedd effaith y cynllun a gyflwynwyd yn ddiweddar i ryddhau carcharorion o'r carchar yn fuan yn hysbys eto. Serch hynny, bydd PDC yn monitro effaith y cynllun rhyddhau yn gynnar drwy aelod y Gwasanaeth Prawf ar y PDC, a bydd yn codi unrhyw faterion a godwyd ganddynt yng nghyfarfod Uwch Arweinwyr Diogelwch Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes.
- o ran cymharu ystadegau trosedd rhwng 1998 pan sefydlwyd PCD, a 2024, cafodd yr aelodau wybod bod rhifau trosedd wedi lleihau'n ddramatig ond eu bod wedi newid. Roedd 'mathau newydd o drosedd' megis Llinellau Sirol, troseddau ar-lein megis twyll a throsedd casineb wedi dod i'r amlwg ac roeddynt yn cynyddu. Roedd cymharu ystadegau o dros 25 mlynedd yn ôl yn anodd gan fod pethau arferai fod yn dderbyniol, e.e. mathau o drais domestig, ddim yn dderbyniol rŵan, ac mae hyn yn egluro'r newid mewn cyfraddau trosedd gwahanol.
- ar ôl cael cyllid Ffyniant Bro roedd system TCC newydd wedi cael ei osod yn Ninbych ac roedd yr holl gamerâu mewn trefi eraill oedd eisoes â TCC naill ai'n newydd sbon neu'n llai na tair blwydd oed, gan olygu y gallai'r camerâu ddarparu lluniau gwell a galluogi'r PCD i wneud mwy. Yr Aelod Arweiniol oedd Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth TCC oedd yn cynnwys Cynghorau Tref Y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan a rŵan Dinbych. Roedd y Bwrdd yn cynnal cyfarfodydd bob deufis pan mae'r Cynghorwyr yn adrodd yn ôl i'w Cyngor Tref. Yn ystod y chwarter rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cael lluniau o'r camerâu hynny ar 59 achlysur. Er bod y camerâu yn dal i gael eu monitro yng Nghaer, roedd y contract monitro TCC fod i gael ei adolygu. Fe allai'r adolygiad yma olygu bod y contract newydd yn amodi y byddai unrhyw ddarparwr yn y dyfodol yn gallu monitro systemau cyffredin rhwng Sir Ddinbych a Chonwy a byddai hyn y cefnogi Heddlu Gogledd Cymru i gael mynediad haws a chynt at y lluniau sydd ei angen arnynt a byddai'n cryfhau'r Bartneriaeth.
- cafwyd cadarnhad fod y Ganolfan Ieuenctid newydd ar bromenâd y Rhyl wedi cael effaith cadarnhaol ar leihau trosedd ieuenctid yn yr ardal. Roedd yn lleoliad defnyddiol iawn i alluogi swyddogion i ymgysylltu a chyfathrebu gyda phobl ifanc mewn amgylchedd ymlaciol, llai ffurfiol. Roedd yn lle diogel i ieuenctid. Dywedodd y Prif Arolygydd bod y ganolfan wedi cael effaith fawr ar ymestyn gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid a oedd bellach yn cael ei ymestyn i Brestatyn. Gyda chyfleusterau megis y Ganolfan Ieuenctid,

roedd modd i Swyddogion yr Heddlu fynd i mewn a thrafod gydag unigolion i ganfod beth yr oeddynt ei angen, a pha welliannau oedd eu hangen ac ati.

- cadarnhawyd fod y system cardiau melyn dal i fod ar waith ar gyfer digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ieuenctid. Cafodd ei ddefnyddio fel adnodd atal a rhybudd y byddai ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus yn arwain at gofnod troseddol.
- cawsant wybod bod cyfraddau trosedd mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â dwyn nwyddau amaethyddol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad o dan yr ystadegau ar gyfer lladrad cyffredinol. Fe soniwyd am fenter "Dangos y Drws i Drosedd" ac roedd hwn yn mynd i'r afael â throsedd gwledig drwy roi pecynnau 'SmartWater' i ffermwyr mewn ardaloedd gwledig, ac roedd hyn yn galluogi iddynt farcio eu nwyddau gyda marciau atal melyn fflwroleuol a ddylai wneud eu hoffer yn llai deniadol i ddarpar ladron gan y byddai'n bosibl olrhain darn o offer i'w berchennog gwreiddiol. Roedd yna Uned Troseddau Gwledig bwrpasol yn Heddlu Gogledd Cymru sydd yn trafod â ffermwyr a phreswylwyr yn rheolaidd mewn cymunedau gwledig. O ran defnyddio dronau i batrolio ardaloedd gwledig, cafodd y Pwyllgor wybod bod rheoliadau llym ar waith o ran defnyddio dronau er mwyn amddiffyn preifatrwydd unigolion, felly dim ond o dan ganllawiau llym y gellir hedfan a defnyddio dronau ac at ddibenion penodol yn unig.

Diolchodd yr Aelodau i'r Aelod Arweiniol, Rheolwr PDC a'r Prif Arolygydd am y cyflwyniad yn ogystal â'r holl waith caled a brwdfrydedd yr oeddynt wedi'i ddangos tuag at eu gwaith a chadw preswylwyr a chymunedau yn ddiogel. Dywedodd y Cadeirydd efallai yr hoffai aelodau wahodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Gan fod y Prif Gwnstabl fod i fynychu sesiwn Gweithdy'r Cyngor yn y dyfodol agos, fe awgrymwyd bod cais i wahodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gyfarfod yn y dyfodol yn cael ei ohirio tan ar ôl ymweliad y Prif Gwnstabl â'r Awdurdod. Ar ddiwedd trafodaeth fanwl:

***Benderfynu:*** *yn amodol ar y sylwadau uchod –*

*(i) derbyn adroddiad Diweddariad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych ar ei weithgareddau yn ystod 2023/24;*

*(ii) llongyfarch y Bartneriaeth am ei pherfformiad yn ystod 2023/24 a chefnogi ei amcanion a meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2024/25 fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.*

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2023/24

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) a dywedodd fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael ei ffurfio i fodloni gofynion Adran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Roedd ystod eang o leisiau'n rhan o'r Bwrdd, yn cynnwys gwasanaethau, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Prif swyddogaeth y Bwrdd oedd sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon gyda'i gilydd tra'n goruchwylio'r gwaith o ddefnyddio ffrydiau ariannu allweddol. Tynnodd yr Aelod Arweiniol sylw at rai agweddau o'r adroddiad, yn cynnwys Gweithdy

Meddwl yn Radical a edrychodd ar egwyddorion posibl ar gyfer newid trawsnewidiol ar gyfer lles preswylwyr gogledd Cymru.

Diolchodd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol i'r holl staff am eu hymdrechion yn darparu'r gwasanaethau yma a dywedodd eu bod yn ymroddedig ac yn dalentog. Tynnodd yr adroddiad sylw at faint y gwaith sydd wedi cael ei wneud i sefydlu gweithdrefnau i alluogi darparu amcanion y Gydweithredfa. Fe nodwyd mai un o'r prif egwyddorion o fewn y Gydweithredfa yw'r angen am newid a datblygiad.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion gynghori:

- bod y risgiau sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad yn cael eu hadnabod a'u cydnabod. Wrth i'r Byrddau Rhanbarthol ddatblygu dros y blynyddoedd mae'r disgwyliad am ystod y gwaith a mentrau y mae'r Bwrdd yn eu goruchwylio wedi cynyddu bob blwyddyn gan olygu bod y gwaith o reoli'r llwyth gwaith ynddo'i hun yn dod yn risg. Roedd hwn yn risg cenedlaethol, nid un rhanbarthol yn unig.
- roedd y Bwrdd yn bodloni ei holl ofynion a Dyletswyddau Statudol ar hyn o bryd, ond roedd pob partner yn ymwybodol y gallai hyn fod yn her i'w gynnal yn y dyfodol, felly roedd hi'n bwysig bod yr holl bartneriaid yn deall ble'r oedd y straeniau yma er mwyn ystyried y darlun ehangach.
- o ran gosod ffioedd cartrefi gofal, roedd rhai awdurdodau wedi gwyro o'r cytundeb ffioedd gofal er gwaetha'r ymdrechion i gyflwyno dull cyson. Yr Awdurdodau Lleol unigol a'r Bwrdd Iechyd ddylai osod eu ffioedd gofal eu hunain. Tra bod y Bwrdd Gosod Ffioedd Rhanbarthol (is-grŵp o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) yn gweithio tuag at egwyddorion a methodoleg i osod ffioedd gofal, nid oedd gan y Grŵp y pwerau i osod y ffioedd, dim ond argymell lefel 'gyffredin' ar draws y rhanbarth y gallai wneud. Nod y grŵp oedd sicrhau bod pob budd-ddeiliad yn cydweithio i sefydlu perthnasoedd gwell gyda darparwyr. Yn y pendraw, nid oeddynt wedi gwyro oddi wrth y cytundeb, gan fod y fethodoleg wedi cael ei defnyddio.
- bod Gwasanaethau Dementia, y Llwybr Cymorth Cof yn benodol, wedi dechrau cynnig gwasanaethau yn ddiweddar i helpu dioddefwyr a gofalwyr. Roedd y digwyddiadau yma'n cynnwys siaradwyr gwadd ac amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr gan ddefnyddio cyllid rhanbarthol, ac roedd gweithwyr cefnogi Dementia yn mynychu'r digwyddiadau yma. Un partner nodedig wrth gomisiynu a darparu cefnogaeth gwasanaethau Dementia ac Alzheimer yn ardal Sir Ddinbych oedd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Er hynny, efallai bod newidiadau diweddar ym mhroses achrediad 'Sy'n deall Dementia' wedi effeithio ar gymunedau penodol gan nad ydynt wedi gallu cael eu hachrediad yn ôl.
- Roedd cyllid Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gymysgedd o gyllid Llywodraeth Cymru (LlC) a chyllid gan ei bartneriaid craidd. Mae'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol (CIRh) yn gronfa 5 mlynedd werth ychydig dros £57m, mae £29.7 yn cael ei ddarparu gan LlC a £27.4m gan bartneriaid eraill. Amcan y gronfa hon oedd cefnogi integreiddio a gwaith partneriaeth mewn cysylltiad â grwpiau poblogaeth sydd â blaenoriaeth. Gan ei bod hi'n gronfa ranbarthol, roedd hi'n anodd mesur yn union faint o gyllid ar gyfer pob prosiect unigol sy'n weithredol yn Sir Ddinbych yr oedd Cyngor Sir Ddinbych wedi'i gyfrannu i ddechrau.

- roedd y Bwrdd Iechyd yn Bartner Statudol ar y Bwrdd, ac fel pob partner statudol arall, roedd yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifri'. Nid y Bwrdd Iechyd yn unig oedd yn gwneud toriadau, roedd cyllidebau pob corff sector cyhoeddus yn wynebu toriadau.
- nid oeddynt yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i integreiddio Gwasanaethau Anableddau Dysgu yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn ffurfiol; serch hynny nid oedd hyn yn eu rhwystro rhag cydweithio.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***Penderfynwyd:*** *yn amodol ar y sylwadau uchod a darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani –*

*(i) cadarnhau, yn rhan o ystyried Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y gwaith sydd angen ei wneud gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; a*

*(ii) chydnabod y cynnydd a wnaed yn ystod 2023/24 mewn cysylltiad â'r meysydd gwaith sy'n cael eu datblygu drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.*

12pm: Ar y pwynt hwn, cymerodd y pwyllgor egwyl ac ailymgynnull am 12.10pm.

## 7 STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU 2024 – 2029

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw), a dywedodd fod yr adroddiad yn delio â'r cyfnod rhwng 2024-2029, ac nad oedd y rhagolygon ariannol, o leiaf am ran gyntaf y cyfnod amser yma, yn galonogol ar hyn o bryd. Fe bwysleisiodd pa mor hanfodol fyddai'r strategaeth hon i'r Awdurdod Lleol i'w alluogi i wneud penderfyniadau am ei asedau wrth symud ymlaen. Fe nodwyd fod gan yr Awdurdod Lleol 669 o asedau ar 519 o safleoedd. Roedd hyn gyfystyr â nifer fawr o asedau i gyflawni dyletswyddau statudol ohonynt, a byddai rhai o'r asedau yma'n darparu cyfle i gynhyrchu symiau cyfalaf i'r Cyngor. Byddai rheoli asedau'n wahanol, mabwysiadu agweddau gwahanol, a chydweithio gyda phartneriaid i gyd yn galluogi'r Awdurdod i gael y budd mwyaf o'i Bortffolio Asedau. Fe fyddai hefyd yn sicrhau bod gan y Cyngor yr asedau cywir, yn y lle cywir ac yn y cyflwr cywir i fodloni anghenion presennol a'r rhai a ragwelir yn y dyfodol, sef egwyddor sylfaenol y Strategaeth.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau wrth y Pwyllgor bod fersiwn ddrafft y Strategaeth (Atodiad 1 yr adroddiad) yn ddogfen hollbwysig a bod rheoli asedau yn ffurfio un o'r saith piler o lywodraethu da ac felly roedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Diolchodd y Pennaeth Gwasanaeth i'r Rheolwr Asedau a Chyfleusterau a Rheolwr Tîm Asedau am eu gwaith caled yn llunio'r Strategaeth ddrafft.
Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- Rhoddwyd eglurhad fod Adran 7.2 y Strategaeth yn cyfeirio at leoedd dros ben y disgyblion o fewn portffolio o asedau Addysg y Cyngor. Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor oedd y cyfrwng a ddefnyddir i reoli proses moderneiddio ysgolion y Sir a rheoli llefydd gwag. Roedd gwaith cynnal a chadw parhaus mewn ysgolion yn ddibynnol ar gyllid drwy broses gosod y

gyllideb, ond fe eir i'r afael â gwaith cynnal a chadw ymatebol fel y bo angen yn syth, er enghraifft pan ganfuwyd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth mewn ysgolion.

- wedi cytuno i wneud ymholiadau gyda'r Adran Addysg am y sefyllfa bresennol ynglŷn ag adeilad y Cylch Meithrin yn Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl.
- bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn rhan o'r broses o osod y gyllideb mewn cysylltiad â dyfodol toiledau cyhoeddus.
- o ran gwerth asedau cyfredol, nid oedd hi'n beth doeth i fod yn benodol am werth asedau penodol mewn adroddiad cyhoeddus. Roedd yna restr o asedau wedi'u datgan rhai dros ben, ac roedd yr Awdurdod wrthi'n ceisio cael gwared arnynt. Nid oedd y rhestr yn gynhwysfawr, ac roedd pob ased posibl i gael ei waredu wedi cael eu hadrodd i'r Grŵp Rheoli Asedau a oedd ar agor i bob cynghorydd ei fynychu.
- roedd gwasanaethau unigol yn gyfrifol am reoli'r asedau hynny oedd o fewn eu meysydd gwasanaeth eu hunain, h.y. roedd Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gyfrifol am y safleoedd yr oeddynt yn eu gweithredu ar draws y Sir. Gwasanaeth fyddai'n penderfynu sut roedd eu cyllideb yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn y safleoedd hynny.
- cytunwyd i gais y byddai Aelodau yn cael gweld rhestr o asedau oedd yn berchen i'r Cyngor o fewn pob Grŵp Ardal Aelodau.

Ar ddiwedd y drafodaeth drylwyr:

***Penderfynwyd:***

*(i) yn amodol ar y sylwadau uchod a darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani, argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo a mabwysiadu fersiwn ddrafft Strategaeth Rheoli Asedau 2024/2029 (Atodiad 1 yr adroddiad);*

*(ii) fel rhan o'i ystyriaeth, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad); a*

*(iii) bod rhestr o asedau sydd yn eiddo i'r Cyngor yn eu hardaloedd yn cael eu dosbarthu i bob Grŵp Ardal yr Aelodau a bod y rhestr yn nodi statws presennol yr ased a rhagolwg o'i statws yn y dyfodol, ynghyd ag amcangyfrif o'i werth ar y farchnad.*

## 8 ADRODDIAD DIWEDDARU "ADOLYGIAD STRATEGAETH DDIGIDOL" ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) gan nodi bod yr adroddiad wedi'i seilio ar waith maes a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2023. Roedd yna bedwar argymhelliad yn yr adroddiad gan Archwilio Cymru ac roedd y rhain yn cael sylw yn Atodiad 3. Fe dynnwyd sylw at Atodiad 4 a dywedwyd bod hwn yn rhoi manylion y cynnydd a wnaed wrth ddarparu'r Strategaeth bresennol. Fe nodwyd mai adroddiad diweddariad gwybodaeth oedd hwn.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- ddweud fod rhaid i'r Cyngor fod â mesurau ar waith yn ôl y gyfraith i fodloni anghenion preswylwyr oedd wedi'u heithrio'n ddigidol i atal ynysiad. Roedd

y Swyddog Digidol wrthi'n gwneud llawer o waith gyda'r bwriad o leihau allgau digidol.

- fe eglurwyd fod mynd i'r afael ag allgau digidol wedi bod yn flaenoriaeth ers nifer o flynyddoedd. Roedd yr Awdurdod wedi defnyddio cyfleoedd o ffrydiau ariannol eraill, megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ddarparu hyfforddiant i breswylwyr o ran sut i gael gafael ar, a defnyddio adnoddau ar-lein. Roedd llawer o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag allgau ac ynysiad digidol.
- pwysleisiwyd fod pob gwasanaeth oedd yn cael eu cynnig ar-lein hefyd ar gael wrth ofyn am gopi papur neu drwy ofyn wyneb yn wyneb. Roedd gan Aelodau rôl bwysig i'w chwarae yn rhoi gwybod i'r Cyngor os oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw breswylwyr nad oedd yn gallu cael gafael ar wasanaethau drwy swyddfeydd y Cyngor neu lyfrgelloedd y Sir, oherwydd oedran, ynysiad neu anawsterau symudedd, er mwyn i swyddogion neu sefydliadau gwirfoddol allu cysylltu â nhw ynglŷn â'u hymholiadau. Mae llawer o waith yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar dorri rhwystrau ffisegol a chyfathrebu oedd yn atal preswylwyr rhag cyfathrebu gyda'r Cyngor. Roedd y Swyddog Digidol bob amser yn barod i helpu aelodau, swyddogion, cymunedau a phreswylwyr gyda phroblemau digidol a chysylltedd, tra bod gan wasanaethau eraill swyddogion oedd yn cynnal ymweliadau â'r cartref i bobl oedd yn cael trafferth gadael y tŷ, i'w cynorthwyo nhw ag ymholiadau oedd yn benodol i'r gwasanaeth, e.e. gofal cymdeithasol.
- o ran y tri argymhelliad arall a wnaed gan Archwilio Cymru oedd yn ymwneud â 'Threfniadau Partneriaeth a Chydweithio', 'Cyfrifo Costau ac Adnoddau y Strategaeth', a'r 'Trefniadau ar gyfer Monitro Gwerth am Arian a'i Effaith', cafodd yr aelodau wybod y byddai'r holl ffactorau yma'n cael eu hystyried yn y gwaith sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn llunio Strategaeth Ddigidol newydd y Cyngor o 2026 ymlaen. Byddai cyfleoedd gwaith partneriaeth yn cael eu harchwilio'n fanwl gan fod ganddynt y posibilrwydd o wireddu arbedion ariannol a chynorthwyo gwaith effeithiol ac effeithlon gyda phartneriaid sector cyhoeddus eraill.
- cymryd cyfrifoldeb i wneud ymholiadau pellach i ganfod oedd gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar waith i weithredu system rheoli gwybodaeth gofal cymdeithasol newydd Llywodraeth Cymru, System Wybodaeth Gofal Cymdeithasol Cymru ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, ac a oedd unrhyw gyllid allanol a/neu fewnol wedi cael ei sicrhau er mwyn ei weithredu a'i integreiddio.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***Penderfynwyd:***

*(i) yn amodol ar yr arsylwadau uchod, cymeradwyo'r cynnydd hyd yn hyn er mwyn darparu Strategaeth Ddigidol y Cyngor 2019/2025; a*

*(ii) cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn erbyn pedwar argymhelliad Archwilio Cymru a sut y byddant yn cael eu defnyddio i siapio'r dull a gymerwyd i lunio Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer 2026 ymlaen.*

## 9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith. Yn ystod ei chyflwyniad, dywedodd y Cydlynydd Craffu ei bod hi'n aros am gadarnhad ynghylch a fyddai'r adroddiadau am 'Statws Baner Las ar gyfer Traethau Sir Ddinbych' a 'Chanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref' yn debygol o fod ar gael i'w cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Serch hynny, roedd Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu fod i gyfarfod i drafod ceisiadau craffu yr wythnos ganlynol, felly os na fydd un neu ddau o'r adroddiad ar gael ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd, fe allai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ohirio eitemau ar gyfer archwiliad manwl y Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw. Yng nghyfarfod blaenorol Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ym mis Mai 2024, cafodd tair eitem eu cyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau, sef fersiwn ddrafft Strategaeth Rheoli Asedau 2024 i 2029 ac Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol roedd y ddau wedi cael eu harchwilio yn ystod y cyfarfod presennol. Roedd y drydedd eitem yn ymwneud ag Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023/24, oedd wedi cael ei restru i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024.

Fe atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o adroddiadau gwybodaeth wedi cael eu rhannu gyda nhw'n gynharach yr wythnos honno yn y ddogfen 'Briff Gwybodaeth'. Os oedd rhywfaint o'r wybodaeth yn yr adroddiadau yn destun pryder iddynt, fe ddylent lenwi Ffurflen Cynnig Aelodau yn gofyn i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu gyfeirio'r mater i Bwyllgor Craffu. Felly:

***Penderfynwyd:*** *yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol mewn cysylltiad ag aildrefnu eitemau sydd wedi'u rhestru ar y Rhaglen Waith bresennol, cadarnhau'r rhaglen waith sydd i ddod fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

**Canolfan Is-ranbarthol Asesu Plant Bwthyn y Ddôl:** Rhoddodd y Cynghorydd Bobby Feeley, cynrychiolydd Craffu ar Fwrdd Prosiect ar gyfer yr uned arbenigol hon, ddiweddariad am ddarpariaeth y prosiect a dywedodd fod y gwaith adeiladu yn nesáu at ei derfyn. Roedd dyddiad lansio wedi cael ei osod ar gyfer mis Tachwedd 2024. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cael anhawster ar hyn o bryd yn llenwi dwy swydd arbenigol a fyddai'n cael eu seilio yn y ganolfan, ond rhagwelir y byddai'r swyddi yma'n cael eu llenwi cyn i'r ganolfan agor ym mis Tachwedd. Dywedwyd wrth aelodau'r Pwyllgor i gysylltu â Phennaeth Gwasanaethau Plant y Cyngor petaen nhw eisiau ymweld â'r Ganolfan cyn iddi gael ei hagor yn swyddogol.

***Penderfynwyd:*** *nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20pm